

Awdurdod Parc Cenedlaethol

9 Chwefror 2022

Yn Bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)

Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr R Plummer, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.10am; 11.20am – 1.00pm; 1.30pm – 2.00pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

2. Datgan Buddiannau

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol a rhagfarnus gan y Cynghorydd yn Adroddiadau 03/22 Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth a Pholisi Cynllunio ar gyfer Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr, a hefyd yn 04/22 Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd P Harries a Dr M Havard yn 01/22 Cynllunio Cyllideb Ddrafft 22/23; gan y Cynghorydd Baker yn Adroddiad 06/22 Strategaeth Digwyddiadau Mawr; gan Dr R Plummer yn Adroddiadau 03/22 a 05/22 Adolygiad Gwirfoddoli a Pholisi Gwirfoddoli APCAP.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15^{fed} o Ragfyr 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Penderfynwyd cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15^{fed} o Ragfyr 2021.

4. Materion yn codi

Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru (Cofnod 8)

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yntau a'r Prif Weithredwr wedi mynychu tri cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor, ac ychwanegodd y Prif Weithredwr bod y Pwyllgor o'r farn mai awdurdodau lleol yw'r aelodaeth graidd ac y dylai cynrychiolaeth y Parc Cenedlaethol fod yn gyfyngedig i'r swyddogaeth cynllunio strategol. Serch hynny byddai'r achos yn parhau i'w roi gerbron am gynrychiolaeth ar y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac mewn meysydd eraill wrth i waith y Pwyllgor ddatblygu. Pleser gan y Prif Weithredwr oedd cyhoeddi na fyddai unrhyw gyfraniad ariannol yn ofynnol gan yr Awdurdod yn y flwyddyn sydd i ddod..



Nodwyd.

5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd bod cyfyngiadau Covid yn parhau i gyfyngu ar weithgareddau personol megis bod Nofio Gŵyl San Steffan Dinbych-y-pysgod, i'w noddi gan yr Awdurdod, wedi'i ganslo. Fodd bynnag, roedd wedi mynychu garddwest i ddathlu pen-blwydd Dr George Middleton o Dyddewi yn 100 oed oedd â chysylltiadau maith â'r Parc Cenedlaethol. Hefyd roedd y Cadeirydd wedi mynychu tri cyfarfod rhithiol o'r Cydbwyllgor Corfforedig, dau gyfarfod o Gadeiryddion Parciau Cenedlaethol y DU, cyfarfod o Barciau Cenedlaethol Cymru i drafod yr ymgynghoriad ar Ail Gartrefi, cyfarfod cadarnhaol gyda Chyfeillion y Parc Cenedlaethol, a seminar ar amgylchedd morol yr Ewrobarc. Roedd hefyd wedi mynychu cyfarfod o Ymddiriedolaeth APCAP fel un o Ymddiriedolwyr sy'n cynrychioli'r Awdurdod. Daeth â'i adroddiad i ben drwy hysbysu'r Aelodau nad oedd yn fwriad ganddo sefyll yn yr etholiadau llywodraeth leol sydd i ddod ac na fyddai felly yn Aelod o'r Awdurdod o fis Mai.

Diolchodd nifer o Aelodau a swyddogion i'r Cadeirydd am ei holl waith dros yr Awdurdod ac am gyhoeddi ei fwriadau mewn modd amserol.

Nodwyd.

6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

- (i) Y Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2021 ac ar 10 Ionawr 2022;
- (ii) Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2021;
- (iii) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2021;
- (iv) Y Pwyllgor Ieuenctid a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021; a'r
- (v) Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2022.

Penderfynwyd mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.

7. Rhybudd o Gynnig

Dywedodd y Cadeirydd bod rhybudd o gynnig wedi dod i law oddi wrth y Cynghorydd P Kidney bod yr Awdurdod yn cychwyn trafodaethau gyda Chyngor Cymuned Llandyfái, ac unrhyw bartion sydd â buddiant, naill ai i roi neu werthu tir yn Freshwater East ar gyfer darparu lle chwarae i blant. Cynigiwyd ac eiliwyd hyn.

Dywedodd y Cadeirydd, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, y byddai'r mater yn cael ei gyfeirio yn awr at y Pwyllgor Adolygu Gweithredol i'w ystyried yn ei



gyfarfod nesaf ar 16 Mawrth 2022, a gan nad oeddent yn Bwyllgor sy'n gwneud penderfyniadau, byddai eu hargymhelliad yn cael ei adrodd yn ôl i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol i'w benderfynu. Er nad oedd y Cynghorydd Kidney yn Aelod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol, byddai'n cael ei wahodd i fynychu'r cyfarfod hwnnw.

Holodd un Aelod pam nad oedd y Rhybudd o Gynnig yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod llawn y diwrnod hwnnw, ac atebwyd bod Rheol Sefydlog 8.5a yn nodi pe bai pwnc unrhyw Gynnig yn dod o fewn cylch gwaith unrhyw Bwyllgor, y dylid ei gyfeirio at y Pwyllgor hwnnw heb drafodaeth ar y Cynnig. Nodwyd bod Rhybudd o Gynnig wedi'i ystyried gan yr Awdurdod ar achlysuron blaenorol dim ond lle nad oedd Pwyllgor priodol lle gellid ei drafod.

Penderfynwyd cyfeirio'r Rhybudd o Gynnig bod yr Awdurdod yn cychwyn trafodaethau gyda Chyngor Cymuned Llandyfái, ac unrhyw bartïon sydd â buddiant, naill ai i roi neu werthu tir yn Freshwater East ar gyfer darparu lle chwarae i blant, at y Pwyllgor Adolygu Gweithredol i'w ystyried.

8. Cynllunio Cyllideb Ddrafft 2022/23

Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyllidebau Refeniw a Chyfalaf drafft ar gyfer 2022/23 a'r rhagamcanion ar gyfer 2023/24 i 2026/27, yr ardoll 2022/23 drafft ar Gyngor Sir Penfro, y Dangosyddion Materion Ariannol ar gyfer y rhaglen gyfalaf, a'r Strategaeth Fuddsoddi a'r Datganiadau Polisi ar Gronfeydd Ariannol Wrth Gefn a Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23.

Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf Drafft 2021/22 a'r Rhagamcanion ar gyfer 2023/24 i 2026/27

O ran y cyllidebau ar gyfer 2022/23, roedd yr adroddiad yn nodi strategaeth cyllideb yr Awdurdod a'r rhagdybiaethau allweddol oedd yn sail i'r cyllidebau, ac fel yr oedd yr Aelodau wedi'u trafod yn flaenorol mewn gweithdy ar baratoi cyllideb. Pe byddai chwyddiant cyflogau yn uwch na'r 2% a gyllidebwyd ar ei gyfer, nodwyd y byddai'r arian dros ben yn cael ei ariannu o'r cronfeydd cyffredinol wrth gefn. Roedd disgwyl i'r sefyllfa refeniw a ragwelwyd ar hyn o bryd ar gyfer 2021/22 ddangos gwarged o £595k, a byddai'r swm hwn yn cael ei ddefnyddio i greu dwy gronfa wrth gefn newydd wedi'u clustnodi ar gyfer Datgarboneiddio ac Ailddatblygu'r Ystafell Werdd ac i ychwanegu at y gronfa wrth gefn bresennol ar gyfer ailstrwythuro'r awdurdod. Gyda'r gwarged rhagamcanol o ddim yn y gyllideb refeniw, roedd disgwyl felly i falans y Gronfa Gyffredinol aros ar £1008k, roedd disgwyl i Dderbyniadau Cyfalaf aros ar £370k, a'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn gostwng i £4,529k ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22.

Dywedwyd bod Cyllideb Ddrafft 2022-23 Llywodraeth Cymru yn awgrymu y byddai'r Grant Parc Cenedlaethol ar gyfer y tri Pharc Cenedlaethol yn



parhau ar lefel 21/22; roedd disgwyl y gyllideb derfynol fis Mawrth 2022. Er y byddai'r Grant Parc Cenedlaethol/Ardoll yn parhau yn ddigymffwrdd, nodwyd bod y grant wedi dangos gostyngiad cyffredinol ers 2010/11. Roedd dadansoddiad a rhagolygon sensitifrwyd wedi'u gwneud o ran y senarios a amlinellwyd gan roi'r sefyllfa bosibl yn y gyllideb refeniw hyd at 2025/26.

Roedd yr Awdurdod wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn yr arian craidd dros y blynyddoedd diwethaf drwy wneud arbedion sylweddol yn y costau gweithredu (yn benodol costau gweithwyr gyda chostau cyflogau wedi'u cadw ar yr un lefel er gwaethaf codiadau cyflog), cynyddu incwm o ffynonellau eraill, a denu grantiau ar gyfer prosiectau penodol. Er bod gostyngiad wedi bod yn yr incwm a gynhyrchwyd gan awdurdodau oherwydd y pandemig, roedd y duedd wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda'r rhan fwyaf o'r ffynonellau incwm yn gwella. Darparwyd cyllideb refeniw gryno a manylach ar gyfer 2022/23, ac roedd y gyllideb wedi'i mantoli oherwydd cymorth y cynllun grant Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd y Rheolwr Cyllid y byddai'r Awdurdod yn cael ei ddiogelu rhag codiadau i filiau gwresogi gan fod ei gontractau presennol yn rhedeg hyd at fis Awst 2023. Hefyd bod y gyllideb ar gyfer incwm y canolfannau wedi'i gosod ar 90% o lefel 2020/21 wrth i'r ansicrwydd ynghylch Covid barhau. Fodd bynnag, y gobaith oedd y byddai'r gyllideb yn uwch na'r gofyn.

Hefyd roedd yr adroddiad yn nodi'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23, oedd yn rhagamcanu gwariant o £1,126,500, gyda'r rhan fwyaf o'r prosiectau yn cael eu hariannu gan gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Nodwyd mai'r prosiect mwyaf arwyddocaol oedd Ailddatblygu'r Ystafell Werdd, a mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y posibilrwydd bod costau deunyddiau yn mynd i godi. Sicrhaodd y Rheolwr Cyllid yr Aelodau bod cronfa wrth gefn o 10% wedi'i chynnwys ac y byddai'r prosiect yn cael ei fonitro'n ofalus gan Bwyllgor oedd yn cynnwys swyddogion ac Aelodau.

O ran y cronfeydd wrth gefn a balansau ariannol, rhagwelwyd y byddai'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar ddiwedd 2021/22 yn £1,008k ac yn parhau ar y lefel hon tan ddiwedd 2022/23. Yn ogystal, byddai'r gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf yn cael ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf pellach yn 2022/23 ac roedd disgwyl i'r gronfa hon felly ostwng i £118k erbyn diwedd 2022/23, ac roedd disgwyl hefyd i'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ostwng i £3,542k erbyn diwedd yr un cyfnod.

Diolchodd yr Aelodau i'r Rheolwr Cyllid am adroddiad cynhwysfawr ac i'r Prif Weithredwr am ei arweinyddiaeth effeithiol o'r Awdurdod. Tynnwyd



sylw hefyd at broffesiynoldeb y Rheolwr Ystadau yn ei gyngor ynghylch asedau'r Awdurdod. Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau am eu geiriau caredig, a thalodd deyrnged i waith yr holl staff, yn enwedig y rhai yn y Canolfannau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Cyllideb Ddrafft 2022/23 yn amodol ar nodi nad oedd y Grant Parc Cenedlaethol/Ardoll wedi'i gadarnhau eto, a nodi'r rhagamcanion ariannol ar gyfer 2023/24 i 2025/26.

Yr Ardoll ar Gyngor Sir Penfro

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau bod Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, isadran 3, yn pennu'r modd y dylid cyhoeddi'r ardoll i'w chodi ar Gyngor Sir Penfro (CSP). Roedd y datganiad canlynol yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Ychwanegodd y Rheolwr Cyllid ei fod wedi cael ar ddeall bod CSP wedi derbyn swm o arian oddi wrth Lywodraeth Cymru sy'n cyfateb i'r ardoll a godwyd arnynt.

Ardoll ar Gyngor Sir Penfro



Rhaid i'r Awdurdod awdurdodi codi ardoll o £1,083,329 oddi wrth Cyngor Sir Penfro yn unol ag Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Rheoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru) 1995 OS 1995 Rhif 3019 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru)(Diwygio) 1996:

- y swm fydd ei angen i dalu am wariant yr Awdurdod yn y flwyddyn dan sylw yn y cyfrif Refeniw yw £6,311,051
 - gwneud y ddarpariaeth sy'n briodol i dalu am hapddigwyddiadau, a'r gwariant hwnnw i'w dalu o'r Cyfrif Refeniw £Dim
 - y swm sydd ei angen i sicrhau bod gweddill digonol gan yr Awdurdod yn ei Gyfrif Refeniw £Dim
 - y swm sydd ei angen ar yr Awdurdod i dalu am unrhyw ddiffyg a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol £Dim
- £6,311,051
- Is-gyfanswm
YN LLAI O
- Grant Adran 72 (GPC) £3,249,986
 - Incwm a gredydir i'r



| | |
|---|--------------------------|
| Cyfrif Refeniw | £1,977,736 |
| • symiau eraill heb eu cynnwys uchod sy'n debygol o fod ar gael yn ystod y flwyddyn | £5,227,722 |
| Yr ardoll sy'n ofynnol | <u>£1,083,329</u> |

PENDERFYNWYD awdurdodi ardoll o £1,083,329 (neu swm priodol arall a benderfynir ar ôl derbyn cadarnhad am y cyllid net a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru) ar Gyngor Sir Penfro am y flwyddyn 2022/23.

Dangosyddion Cod Materion Ariannol a Strategaeth Buddsoddi 2022/23

Roedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried Cod Materion Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) wrth bennu cyllidebau blynyddol. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cyngor y Prif Swyddog Ariannol o ran pennu rhaglen buddsoddi cyfalaf sy'n fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, fel y nodwyd yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw.

Aeth yr adroddiad rhagddo i gyflwyno Strategaeth Fuddsoddi yr Awdurdod, y Polisi ar Gronfeydd Ariannol Wrth Gefn a'r Polisi Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23 oedd yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol ac yn ategu'r system fenthyca darbodus. Cadarnhaodd mai'r unig fuddsoddiadau oedd gan yr Awdurdod oedd adneuron banc.

PENDERFYNWYD bod yr Aelodau yn **MABWYSIADU'R** Dangosyddion Materion Ariannol fel y'u cyflwynwyd, ac yn **CYMERADWYO'R** Strategaeth Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn a Buddsoddi a'r Datganiadau Polisi ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23.

9. Cynllun Corfforaethol Drafft 2022/23

Dywedwyd bod y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau drafft 2022/23 yn nodi Amcanion a Datganiad Llesiant Corfforaethol yr Awdurdod, ei gamau tuag at gyrraedd yr amcanion hynny, a'r modd y byddai'n cyflawni'r egwyddorion datblygu cynaliadwy fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nodwyd nad oedd bellach yn ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu cynlluniau gwella blynyddol, un o ofynion blaenorol y Mesur Llywodraeth Leol, a bod hyn yn gyfle i fabwysiadu agwedd newydd at y cynllun.

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod, yn ei gyfarfod blaenorol, wedi cymeradwyo set ddiwygiedig o Amcanion Llesiant ar gyfer ymgynghori, a bod hynny ar y gweill ar y pryd. Nodwyd bod diwygiadau yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau drafft wedi'u cynnwys fel newidiadau trac o



ran yr Amcan Llesiant Cadwraeth i nodi aralleirio posibl yr Amcan i gymryd i ystyriaeth y sylwadau a wnaed gan yr Aelodau yng nghyfarfod yr APC fis Rhagfyr. Roedd diwygiadau arfaethedig i ganlyniadau o dan yr amcan hwn a'r Amcan Cysylltiadau hefyd wedi'u cynnwys fel newidiadau trac.

Nodwyd y byddai 2022/23 yn gyfnod o drawsnewid i'r Awdurdod wrth symud ymlaen i atgyfnerthu ei weithgareddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei Amcanion Llesiant newydd a'r blaenoriaethau lefel uchel. Roedd adran ar reoli newid wedi'i chynnwys i ategu'r trawsnewid hwn, a byddai nifer o Gynlluniau Cyflawni yn cael eu creu i gefnogi a mesur cyflawni effeithiol.

Roedd y Cynllun a gyflwynwyd yn dal i fod ar ffurf drafft, a gwahodwyd yr Aelodau i roi sylwadau ar y cynnwys. Roedd swyddogion ar draws yr Awdurdod wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun hyd yn hyn, a byddent yn cael cyfle pellach i wneud sylwadau cyn cymeradwyo'r cynllun yn derfynol, y rhagwelwyd y byddai hynny yng nghyfarfod yr Awdurdod fis Mawrth.

Yn y cyfarfod, dywedodd y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth bod rhan o frawddeg wedi'i hepgor ar waelod tudalen 11 o'r Cynllun fel a ganlyn "... gan ganolbwyntio ar ble y gall yr ymyriadau hyn gael yr effaith fwyaf. Bydd ymyriadau yn cael eu gwneud ar ein hystâd ein hunain a thrwy barhau i gynghori a chydweithio â thirfeddianwyr, ffermwyr a rhanddeiliaid eraill, i reoli eu tir ...".

Gan ddiolch i'r swyddog am adroddiad clir, dywedodd nifer o'r Aelodau y byddent yn anfon awgrymiadau am fân newidiadau yn uniongyrchol ati hi a'u bod yn gobeithio y gellid ystyried y rhain fel rhan o'r ymgynghoriad. Cadarnhaodd y swyddog mai'r dyddiad cau ar gyfer sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus oedd y 4ydd o Fawrth, a chroesawodd unrhyw sylwadau pellach. Nododd yr Aelodau hefyd nad oedd pob un o Bwyllgorau'r Awdurdod wedi'u cynnwys yn Adran 6 Meysydd Newid Corfforaethol, a barnwyd hefyd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 o ran cyflawni egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Cytunodd y swyddog i gymryd y pwyntiau hyn i ystyriaeth.

Yn olaf, cwestiynodd un Aelod a oedd yr effeithiau a nodwyd yn y cyflwyniad yn ddigon uchelgeisiol. Fodd bynnag eglurodd y Prif Weithredwr gan mai cynllun o drawsnewid oedd hwn, mai'r gobaith oedd y byddai'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn caniatáu gweithredu cryfach a mwy penodol yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Nodwyd.



[Ymddiheurodd y Cynghorydd M Evans a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon.]

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.10am a 11.20am]

[Datgelodd y Cynghorydd D Clements fuddiant personol a rhagfarnus yn y ddwy eitem ganlynol, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau hynny.]

10. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth a Pholisi Cynllunio ar gyfer Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr

Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ymgynghoriad a nodir uchod oedd yn canolbwyntio ar faterion oedd yn codi lle'r oedd tai'r farchnad agored oedd heb unrhyw reolaethau deiliadaeth yn cael eu defnyddio fel ail gartrefi neu lety gwyliau tymor byr. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi bod y materion yn gymhleth ac y byddai angen atebion amlochrog, na fyddai llawer ohonynt yn ymwneud â chynllunio, megis trethiant a thrwyddedu.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar dri prif gynnig – diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 i greu dosbarthiadau defnydd newydd ar gyfer Prif Gartrefi, Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr; diwygiadau cysylltiedig i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 i ganiatáu newidiadau a ganiateir rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd, a diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru i'w gwneud yn glir, lle bo'n berthnasol, bod yn rhaid ystyried nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr mewn ardal leol wrth ystyried gofynion tai a dulliau polisi mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Roedd ymateb yr Awdurdod wedi'i atodi i'r adroddiad.

Cytunodd yr Aelodau bod hwn yn fater anodd a chymhleth ac roeddent yn falch bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhai camau ymlaen, er bod rhai yn credu y dylid fod wedi gwneud hyn ugain neu ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, a'i bod bellach yn rhy hwyr i rai cymunedau. Cytunwyd bod ymchwil a threialu pellach yn hanfodol i osgoi canlyniadau anfwriadol ac y byddai angen gwerthuso hyn i fesur yr effeithiau dros amser. Codwyd nifer o bwyntiau penodol, cyn ac yn y cyfarfod, a chytunodd y swyddog i ymgorffori'r pwyntiau hyn yn yr ymateb gan nad oeddent yn newid byrdwn yr hyn a awgrymwyd.

Penderfynwyd cymeradwyo'r adroddiad eglurhaol a'r ymateb i'r ymgynghoriad a atodwyd fel ymateb yr Awdurdod i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn amodol ar gynnwys y mân sylwadau a wnaed gan yr Aelodau.



[Ymddiheurodd y Cynghorydd M James a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon.]

11. Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ymgynghoriad ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, oedd yn un o'u blaenoriaethau allweddol. Roedd yr ymgynghoriad yn ystyried sut y gellid ategu ymyriadau cenedlaethol i amddiffyn cymunedau Cymraeg eu hiaith a chaniatáu i'r iaith ffynnu drwy fentrau eraill. Byddai llawer o'r mentrau yn cael eu treialu yn ardal Dwyfor yng Ngogledd Cymru, ac roedd yr ymgynghoriad hwn yn archwilio sut y gellid ategu'r pecyn o ymyriadau cyfunol ar lefel gymunedol i gefnogi a diogelu'r Gymraeg.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r prif gynigion a wnaed fel rhan o'r ymgynghoriad, ac ymateb yr Awdurdod. Roedd yr ymateb llawn wedi'i atodi i'r adroddiad, a gofynnwyd am sylwadau'r Aelodau ar hyn.

Cytunodd yr Aelodau bod hwn yn bwnc cymhleth, ond mynegwyd y farn y gallai llewyrch a bywiogrwydd cymuned gael eu helpu gan bobl yn symud i mewn i ardal, a bod llawer yn hapus i gofleidio iaith a diwylliant yr ardal. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch ymarferoldeb y cynnig i weithio gyda gwerthwyr tai i archwilio dulliau arloesol o werthu tai, a bod angen mwy o fanylion ynghylch sut y byddai hyn yn gweithio yn ymarferol. Byddai croeso hefyd i fanylion pellach ar sut y byddai enwau lleoedd yn cael eu diogelu.

Penderfynwyd bod cytuno ar yr ymateb terfynol i Lywodraeth Cymru ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn cael ei ddirprwyo i Bennaeth Cyfarwyddyd y Parc, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

12. Adolygiad Gwirfoddoli a Pholisi Gwirfoddoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr yr adroddiad hwn drwy amlygu'r ffaith bod Gwirfoddolwyr wedi bod yn cyfrannu at waith yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn helpu'r Awdurdod i gyflawni ei ddibenion ers o leiaf hanner can mlynedd. Roedd tua 200 o wirfoddolwyr wedi'u cofrestru ar hyn o bryd, ac roeddent yn cyflawni amrywiaeth o dasgau, gan gynnwys gwaith cadwraeth ymarferol a gwaith yng Nghanolfannau'r Parc Cenedlaethol, ac roedd cyfleoedd yn parhau i gael eu datblygu.

Aeth yr Arweinydd Tîm Darganfod ymlaen i egluro bod cydnabyddiaeth gynyddol wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf i'r manteision iechyd a lles a ddaw yn sgîl gwirfoddoli. Roedd hyn, ynghyd â'r ffaith bod pobl yn byw'n



hirach, wedi cynyddu'r galw am gyfleoedd gwirfoddoli. Er mwyn datblygu gwirfoddoli mewn modd cynaliadwy, roedd yr Awdurdod yn cydnabod bod angen iddo adeiladu sylfeini cryfach drwy sefydlu arfer da, rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith oedd yn cryfhau'r berthynas rhwng staff a gwirfoddolwyr, a chynyddu, gwella ac amrywio ei gynnydd i ddarparu wirfoddolwyr. I'r perwyl hwn, roedd adolygiad o waith yr Awdurdod gyda gwirfoddolwyr wedi'i gynnal gan ymgynghorwyr, a chyflwynwyd eu hadroddiad i'r Aelodau. Roedd yr adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion yn seiliedig ar eu canfyddiadau, a byddai'r argymhellion hyn yn cael eu defnyddio i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer datblygu gwirfoddoli yn y dyfodol.

Hefyd cyflwynwyd Polisi Gwirfoddoli yr Awdurdod, oedd yn gosod fframwaith i'r Awdurdod gyflawni ei gyfrifoldeb cyfreithiol a'i ddyletswydd gofal yn ei weithgareddau gwirfoddoli, ac yn sefydlu set o egwyddorion clir ac arfer da ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â'r gweithgarwch gwirfoddoli.

Roedd y Cadeirydd yn dymuno cofnodi ei ddiolch i holl wirfoddolwyr yr Awdurdod am eu cyfraniad, gan ddweud bod eu gwaith yn waith hynod bwysig a werthfawrogir yn fawr. Nodwyd bod llawer o'r gwirfoddolwyr yn y lluniau yn dod o grŵp oedran hŷn, a'r gobaith oedd y gellid gwneud gwaith ychwanegol i ymgysylltu â demograffeg iau drwy sefydliadau megis Ffermwyr Ifainc, Cynllun Gwobr Dug Caeredin a phrosiectau gwyddoniaeth dinasyddion. Gan nodi bod eisoes rhywfaint o ymgysylltu â phobl ifanc, megis drwy'r Parcmyn leuenctid, roedd swyddogion yn cydnabod bod hwn yn fwch a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn, megis cynnig cyfleoedd gwirfoddoli ar y penwythnos. Roedd Aelod arall yn gobeithio y gellid annog y gwirfoddolwyr mwy aeddfed hyn i ymgymryd â rôl mewn mentora oedolion ifanc sydd ag anawsterau dysgu gan y byddai ymgysylltu â'r grŵp hwn o fudd i'r naill ochr a'r llall; nodwyd hefyd y diffyg cyfeiriad at gyfleoedd yn yr iaith Gymraeg.

Gan droi at y dogfennau, roedd yr Aelodau yn croesawu'r fenter i gynnal adolygiad strategol, ac roeddent yn falch i nodi nad oedd gofyn iddynt gymeradwyo'r argymhellion, ond y byddai cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i fwrw ymlaen â'r gwaith. Awgrymwyd bod angen gofal wrth gyfeirio at 'waith' gan fod angen i'r gwahaniaeth rhwng staff a gwirfoddolwyr fod yn gwbl glir. Hefyd gwnaed rhai sylwadau ynghylch trefn yr Amcanion a nodir yn y Polisi, a sicrhodd yr Arweinydd Tîm Darganfod yr Aelodau bod yr Amcanion hyn yn ymwneud â'r Strategaeth Gwirfoddoli flaenorol, a rhagwelwyd y byddent yn cael eu hadolygu.

Penderfynwyd:

- a) Nodi'r adroddiad "Adolygiad Strategol o Wirfoddoli" a bod Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu i fwrw ymlaen â'r argymhellion priodol;



b) Mabwysiadu Polisi Gwirfoddoli yr APCAP.

[Gohiriwyd y cyfarfod am egwyl ginio rhwng 1pm a 1.30pm.]

[Ymddiheurodd y Cynghorwyr P Baker, P Kidney, A Wilcox ac M Williams gan adael y cyfarfod.]

13. Strategaeth Digwyddiadau Mawr Sir Benfro 2022 - 2027

Dywedwyd bod Strategaeth Digwyddiadau Mawr Sir Benfro wedi'i datblygu ar y cyd gan yr Awdurdod, Cyngor Sir Penfro a Croeso Sir Benfro er mwyn cael polisi a chyd-destun gweithredol ar gyfer digwyddiadau mawr yn Sir Benfro. Roedd y strategaeth, oedd ynghlwm wrth yr adroddiad, yn rhan allweddol o Gynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro gyda ffocws ar ddatblygu'r economi ymwelwyr y tu allan i'r prif dymor twristiaeth.

Roedd y Strategaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar ddigwyddiadau mwy oedd â'r potensial o hyrwyddo delwedd gadarnhaol o Sir Benfro i'r trigolion ac i'r ymwelwyr, a'i nod oedd hwyluso ffrydiau ariannu o Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru; bod yn ffocws ar gyfer dull mwy cydgysylltiedig o ddatblygu digwyddiadau mawr; a bod yn ffocws ar gyfer gwaith Croeso Sir Benfro ar ddenu digwyddiadau newydd.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod y Cynllun wedi'i ysgrifennu'n dda ac yn hawdd i'w ddarllen, ac yn croesawu'r anogaeth i ddigwyddiadau mawr yn y Parc Cenedlaethol gael Achrediad Digwyddiadau Cynaliadwy (ISO20121), yn enwedig gan mai profiad y blynyddoedd diwethaf oedd bod Sir Benfro wedi dod yn brysur iawn yn ystod misoedd yr haf. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch yr angen am gyllid i gefnogi'r Strategaeth, ond atebodd y Cyfarwyddwr nad oedd unrhyw oblygiadau ariannol ar hyn o bryd, gydag unrhyw geisiadau am gyllid mewn perthynas â digwyddiadau unigol yn cael eu trin fesul achos.

Penderfynwyd mabwysiadu Strategaeth Digwyddiadau Mawr Sir Benfro.

14. Calendr Cyfarfodydd 2022/2023

Atgoffwyd yr Aelodau bod y calendr presennol o gyfarfodydd yn dod i ben fis Mehefin 2022 yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol ac felly cyflwynwyd calendr ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Roedd yr Aelodau hefyd wedi cael gwybod am yr angen i aildrefnu nifer o gyfarfodydd cyn mis Mehefin, ac roedd manylion y rhain hefyd wedi'u nodi yn yr adroddiad fel bod y calendr yn gyflawn.

Penderfynwyd cymeradwyo calendr cyfarfodydd 2022/23.



15. Polisi Gweithio Gartref a Gweithio Hybrid

Atgoffwyd yr Aelodau bod Polisi Gweithio Gartref wedi'i gyflwyno yng nghyfarfod mis Tachwedd yr Awdurdod i'w gymeradwyo, yn dilyn trafodaeth yn y Fforwm Gweithwyr fis Mawrth 2021 ar ddyfodol gwaith yn yr unfed ganrif ar hugain a phrofiadau diweddar o weithio gartref. Roedd yr Aelodau wedi rhoi adborth yn y cyfarfod hwnnw, a gofynnwyd i'r Rheolwr Adnoddau Dynol (AD) gyflwyno polisi diwygiedig i gyfarfod yn y dyfodol.

Roedd y Polisi diwygiedig oedd gerbron yr Aelodau bellach yn fwy cynhwysol ac yn nodi'r berthynas waith â'r staff oedd yn seiliedig ar gydymddiriedaeth, ond wedi'i ddrafftio i liniaru unrhyw risg o ran yswiriant, diogelwch data, trethiant, iechyd a diogelwch a risgiau eraill o weithio gartref.

Yn y cyfarfod, nododd y Rheolwr AD bod gwall teipograffyddol yn adran 11 (site, nid sight) ac ychwanegiad at adran 16 i amlygu y gallai cyfarfodydd hefyd gael eu cynnal drwy ddulliau rhithiol.

Ar wahân i'r Polisi, ychwanegodd hefyd bod staff sy'n gweithio gartref wedi derbyn taliad untro fis Ionawr 2022 ar gyfer mân dreuliau. Roedd hyn o fewn canllawiau CThEM ac roedd staff wedi cael gwybod nad oedd hyn yn gosod cysail ar gyfer y dyfodol.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am yr hyn a ddisgrifiwyd ganddynt fel polisi enghreifftiol, ac am ymgorffori eu sylwadau a wnaed yn y cyfarfod blaenorol.

Penderfynwyd mabwysiadu'r Polisi Gweithio Gartref a Gweithio Hybrid.

